| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Y Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | 6 Mawrth 2014 |
| **Teitl** | Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2014/15 |
| **Pwrpas** | Cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl yn unol ag Adran 38(i) Deddf Lleoliaeth 2011 |
| **Awdur** | Prif Weithredwr – Harry Thomas |
| **Arweinydd Portffolio** | Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Dyfed Edwards |

1. **CEFNDIR**

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor llawn bob blwyddyn fabwysiadau Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

1.2 Gosodwyd y dasg gan y Cyngor i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ffurfio polisi tâl ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn. Cyfarfu'r Pwyllgor hwn ar 26 Chwefror a mabwysiadwyd y polisi tâl sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' er cymeradwyaeth y Cyngor heddiw.

1.3 Mae'r prif newid yn y polisi yn berthnasol i staff ar y cyflogau isaf. Bu i'r Pwyllgor dderbyn argymhellion y Cabinet i gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf drwy ddileu'r ddau bwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor. Mae'r manylion sy'n gysylltiedig â'r newid wedi eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cabinet ar 18 Chwefror yn ymddangos yn Atodiad 'B'.

1.4 Nid yw'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion wedi argymell unrhyw newid i dâl prif swyddogion.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Argymhellir bod y Cyngor llawn yn mabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl sydd yn Atodiad 'A', yn ddarostyngedig i'r cyllid angenrheidiol ar gyfer newid ym mhwyntiau cyflog isaf yn cael ei gynnwys yn strategaeth ariannol y flwyddyn nesaf.